

Julie Morgan AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lynne Neagle AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lynne.Neagle@senedd.cymru

27 Tachwedd 2020

Annwyl Lynne,

Roeddwn am achub ar y cyfle hwn i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf â chi ar fy nghynlluniau ynghylch hyrwyddo'r agenda hawliau plant. Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor unwaith eto am yr ymchwiliad eang a manwl i Hawliau Plant yng Nghymru.

Rwyf wedi ystyried cynnwys yr adroddiad, ac wedi penderfynu cyhoeddi Cynllun Hawliau Plant diwygiedig, i fod yn destun ymgynghoriad, ym mis Rhagfyr. Rwyf wedi cynnwys nifer o argymhellion y Pwyllgor yn y cynllun drafft.

Rwy'n bwriadu cynnal trafodaeth gyda rhanddeiliaid allweddol o'r sector plant ar 14 Ionawr 2021. Anfonaf wahoddiad atoch chithau yn fuan. Bydd y digwyddiad hwn yn gyfle imi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i randdeiliaid ar ein Cynllun Hawliau Plant diwygiedig, a'r adroddiad ar gydymffurfio â'r ddyletswydd sylw dyledus, a gyhoeddir gennym yn y flwyddyn newydd. Bydd yn gyfle hefyd i drafod y gwersi a ddysgwyd o bandemig Covid-19 a'r effaith ar hawliau plant.

Gobeithio y bydd modd ichi ymuno.

Yn gywir,

Julie Morgan AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.